
Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC

Ymgynghoriad ar ddull gweithredu arfaethedig Ofcom
o ran asesu cydymffurfiaeth y BBC â'i ofynion

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 30 Gorffennaf 2018

Dyddiad Olaf ar gyfer derbyn Ymatebion: 24 Medi 2018

Gair am y ddogfen hon

Rôl y BBC ydy darparu gwasanaethau a rhaglenni nodedig o ansawdd uchel sy'n addysgu, yn hysbysu ac yn diddanu. I wneud hynny, mae'r BBC yn comisiynu rhaglenni a deunyddiau gan y BBC a gan gynhyrchwyr allanol ar gyfer ei wasanaethau cyhoeddus teledu, radio ac ar-lein.

Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn gosod gofynion ar y BBC i gynyddu maint y rhaglenni a'r deunyddiau hynny y mae'n eu comisiynu drwy broses gystadlu rhwng cynhyrchwyr. Rôl Ofcom yw gorfodi'r gofynion hynny, ac ystyried a yw hi'n briodol gosod gofynion ychwanegol ynghylch comisiynu ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn amddiffyn cystadleuaeth deg ac effeithiol.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein dull gweithredu arfaethedig o ran cyflawni ein rôl ac rydym yn awr yn croesawu sylwadau gan randdeiliaid.

Cynnwys

Adran

1. Crynodeb Gweithredol

1-3

1. Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Cenhadaeth y BBC yw gwasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Er mwyn cyflawni'r Genhadaeth honno, mae'r BBC yn comisiynu cannoedd o raglenni a deunyddiau ar gyfer ei Wasanaethau Cyhoeddus teledu, radio ac ar-lein bob blwyddyn. Yn 2017/18, gwariodd £2.24bn ar gynnwys ar gyfer ei wasanaethau cyhoeddus yn y DU.¹
- 1.2 Hyd yn ddiweddar, yr oedd rhaglenni sy'n cael eu darlledu gan y BBC yn cael eu creu un ai gan gynhyrchwyr mewnol y BBC ei hun neu gynhyrchwyr allanol. Fodd bynnag, ym mis Ebrill 2017, sefydlodd y BBC BBC Studios fel is-gwmni masnachol ar wahân sydd bellach yn cynnwys cynhyrchu rhaglenni drama, comedi, ffeithiol ac adloniant y BBC ac sy'n gallu creu rhaglenni ar gyfer y BBC a darlledwyr eraill. Flwyddyn yn ddiweddarach, unodd BBC Studios â changen gwerthu a dosbarthu masnachol y BBC, BBC Worldwide, i ddod yn gwmni integredig.
- 1.3 Dan Siarter a Chytundeb 2016, ymestynnwyd rhwymedigaethau'r BBC yn ymwneud â chystadlu am yr hawl i greu rhaglenni. Erbyn diwedd y Siarter ar 31^{ain} Rhagfyr 2027, bydd yn ofynnol i'r BBC sicrhau bod mwy o'i raglenni ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus radio, teledu ac ar-lein yn cael eu creu yn dilyn proses gystadlu rhwng gwahanol fathau o gynhyrchwyr. Pan fydd y BBC yn cynnig cystadleuaeth rhwng cynhyrchwyr mewnol y BBC a BBC Studios (cynhyrchwyr y BBC) a chynhyrchwyr annibynnol cymwys ac anghymwys (cynhyrchwyr allanol) am yr hawl i greu rhaglenni, rhaid iddo wneud hynny ar delerau teg, rhesymol a thryloyw nad ydynt yn gwahaniaethu (FRNDT).²
- 1.4 Mae rôl Ofcom o ran gweithgarwch comisiynu'r BBC yn un ddeublyg. Yn gyntaf, mae Ofcom yn gyfrifol am orfodi'r gofynion a osodwyd ar y BBC gan y Cytundeb i greu rhaglenni yn dilyn proses gystadlu ar delerau teg, rhesymol, tryloyw ac nad ydynt yn gwahaniaethu, ac am fonitro cydymffurfiaeth y BBC. Yn ail, mae'n ofynnol i Ofcom ystyried a yw hi'n briodol cyflwyno gofynion pellach yn y Fframwaith Gweithredu i amddiffyn cystadleuaeth deg ac effeithiol o ran comisiynu.
- 1.5 Yn y ddogfen hon, rydym yn nodi sut y bwriadwn ymgymryd â'r rôl honno. Ein hasesiad dros dro yw bod pryderon posibl ynghylch cystadleuaeth o ran y modd y mae'r BBC yn comisiynu cynnwys. Fodd bynnag, er bod cymhellion i'r BBC ffafrio cynhyrchwyr y BBC, ceir hefyd gymhellion sy'n gwrthweithio hyn. Rydym hefyd wedi ystyried y rhwymedigaethau

¹ Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli'r 'cyfanswm gwariant yn ôl gwasanaeth'. Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y BBC ar gyfer 2017-18, tudalen 194, http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/reports/pdf/bbc_annualreport_201718.pdf

² Caiff y termau 'cynhyrhydd y BBC' a 'cynhyrhydd allanol' eu diffinio yn Atodlen 3(7) y Cytundeb: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/584329/57965_Cm_9366_Print_1.pdf

rheoleiddio eang o ran comisiynu y mae'n rhaid i'r BBC gwrdd â hwy eisoes (yn benodol, y gofyniad i gomisiynu ar delerau FRNDT), yn ogystal â'r mesurau a roddwyd ar waith gan y BBC i sefydlu fframweithiau manwl ar gyfer y broses gomisiynu a gwella'i brosesau i weithio'n fwy effeithiol gyda phob math o gynhyrchwyr.

- 1.6 O'r herwydd, nid ydym yn bwriadu gosod gofynion ychwanegol ar y BBC i amddiffyn cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth gomisiynu. Fodd bynnag, rydym yn nodi yn y ddogfen hon ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer asesu a yw'r BBC yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau fel y nodwyd hwy yng Nghytundeb y BBC, a sut y byddem yn asesu cydymffurfiaeth y BBC pe byddai ymchwiliad. Yn gyntaf, rydym yn nodi y dylai'r BBC gyhoeddi diweddariad blynyddol a chyflwyno rhagor o wybodaeth i Ofcom ynghylch ei weithgarwch comisiynu. Byddai'r wybodaeth hon yn galluogi Ofcom i fesur cynnydd y BBC tuag at fodloni ei ofynion ac asesu ei berfformiad yn flynyddol. Yn ail, rydym yn nodi'r ffactorau arfaethedig yr ydym yn debygol o'u hystyried wrth asesu a yw'r BBC wedi cydymffurfio â'r gofynion yn y Cytundeb, un ai mewn ymateb i gŵyn neu fel rhan o ymchwiliad a gychwynnwyd gan Ofcom.
- 1.7 Rydym yn croesawu barn rhanddeiliaid ar y dull gweithredu hwn. Rydym hefyd yn nodi fod Ofcom ar hyn o bryd yn ymgynghori'n ychwanegol ar ddiwygio rhai gofynion a chyflwyno rhai newydd yn ymwneud â gweithgareddau masnachol y BBC.³ Bydd yr ymgynghoriadau hyn yn agored i dderbyn sylwadau am wyth wythnos ac yn cau ar 24 Medi 2018.

³ <https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/bbc-operating-framework/competition/bbc-studios-bbcs-commercial-trading-activities>